**Cyfarfod Cyngor Cymuned - Ebrill 8fed 2026 - Ganolfan Waunfawr 19:00.**

**Cofnodion y Cyfarfod**

<u>Presennol</u>  Cynghorwyr  Liz Daniel (Cadeirydd)
Dafydd Davies
Edgar Owen
Doug jones
Elfyn Griffiths
Delyth Jones (Cofnodi)

Dechrau'r cyfarfod bu ymweliad gan Catrin o Bro Dyffryn Peris. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon wedi ystyriad Fframwaith Adfywio newydd. Wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol, daeth i olwg bod angen sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle, er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, daeth Catrin i gyflwyno ac esbonio am y Fframwaith.
Mae Ardal Bro Peris yn cynnwys Waunfawr, Caeathro, Llanrug, Cwm y Glo, Llanddeiniolen, Llanberis, Nant Peris a Betws Garmon.
Ar hyn o bryd mae priosect 'Tai' yn cychwyn o'r 9fed o Ebrill. Mae Grwp Ffocws wedi ei sefydlu ar gyfer y prosiect. Mae Pamffledi wedi ei rhannu i dai y pentref, yr ysgol, syrjeri Doctor, a siop y pentref er mwyn i'r cyhoedd cael bod yn ymwybodol ac ateb holiadur i wneud hefo Tai. Cytunodd rhai ar y CC i ddosbarthu rhai o'r pamffledi, ac mae Catrin am ddod i'r pentref i gyflwyno hefyd.

Cynghorwr Dafydd Davies yn fodlon fod yn gyswllt i Waunfawr.

1. **Croeso'r Cadeirydd** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol

2. **Ymddiheuriadau Cynghorwyr**
   Shoned Rees Griffith
   Iwan Davies
   Menna Trenholme
   Sali Burns
   Hawys Tuff

3. **Datganiadau aelodau yn unol a gofynion y Cod Ymddygiad**
   Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'

4. **Derbyn Cofnodion Cyfarfod 25/02/2026**
   Y Cynghorydd DD yn cynnig bod cofnodion y Cyfarfod yn gywir ac LD yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 25/02/26**

**Materion Caeathro** -
Dim i'w adrodd

**Materion Waunfawr** -
Les tir tuol i'r Ganolfan / Cae aml dywydd - dim newid i'w adrodd. Am drefnu dyddiad i gyfarfod gyda Pwyllgor y Ganolfan yn ystod cyfarfod CC nesaf

Baw ci - Dim newid

Arwydd Stad Bodhyfryd - Cais am Arwydd newydd wedi ei wneud, disgwyl rwan am ei osod.

Cwmni Hogan wrthi'n tarmacio y ffordd o'r Hen bost, heibio Ael y Bryn am yr Antur.

Gor-yrru - Heddlu yn y pentref wythnos yma yn monetro.

Potiau blodau - amlwg fod nhw'n cael sylw, diolch Sali

Lon Garreg fawr - dim byd pellach i'w adrodd

Grant Gwynedd Ni - angen trafod yn iawn yn y cyfarfod nesaf, trafodwyd cael mynediad i'r anabl ifewn i'r Ganolfan. Hefyd, radiators gwresogi 'r Ganolfan.

6. **Sedd Wag** - Neb wedi datgan diddordeb hyd yma

**7. Gerddi bach** - dim newid

8. **Adroddiadau**
**Safle bws** - Bws ysgol Brynrefail ddim yn mynd heibio'r lloches wrth yr Ysgol Gynradd pellach, ddim yn siwr os mai dros dro ydi y trefniant newydd.
**Pwyllgor Fynwent** - Mwsog wedi dod yn ol. Bosib gwneith JR Services ei drin pan yn torri'r gwair.
**Llwybrau -** Cadw at ei trin fel y mae rwan.
**Gwyrfai Gwyrdd** - Cais am grant yn mynd i fewn gan Yni Glan - gobeithio cael ymateb cyn Mehefin.
**Gwaith Atal Llifogydd** - dim newid ond dal i ddisgwyl am llinellau gwyn ar y ffordd o Rala at Yr Efail ( rhan o'r ffordd wedi cael tarmac newydd) Cynghorydd EO am holi eto.

**9. Cynllunio -** Dim wedi dderbyn

**10. Gohebiaeth**

JR Services yn codi ffioedd ar gyfer 2026/27. Sylweddoli fod bosib ddim dewis. Angan cael prisiau gan gwmniau eraill (Tender) ar gyfar flwyddyn nesaf.

Adnewyddu Microsoft ar y laptop - cario 'mlaen

Dyddiadau Hyfforddiant - pawb yn ymwybodol

Ffordd ar gau - O'r brif ffordd i lawr am Bompren, ailwynebu'r ffordd.

Gweithgareddau drost y Pasg

Ail Agor Cronfa Cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned Waunfawr a Caeathro

***Cais am Roddion-***

Seindorf Arian Llanrug - £100 Cynghorydd EO yn cynnig a DJ yn eilio
Gwyl Cerdd Dant Caernarfon 2026 - £100 Cynghorydd LD yn cynnnig a DD yn eilio
Ysgol Brynrefail Cais Nawdd i Patagonia - £350 Cynghorydd DJ yn cynnig a EG yn eilio

**11. Mantolen** 2026-27 Disgwyl y VAT yn ol.

**12. Materion ariannol** - I'w drafod tro nesaf gan fod ddim Cyfriflen banc

**Dyddiad a LLeoliad y Cyfarfod nesaf**

Nos Fercher 20/05/26 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan Waunfawr

Pwyllgor y Ganolfan yn gofyn os oes bosib symyd ffram y Goeden Dolig rhag ofn i rhiwyn frifo. Edgar hefo mwy o fanylion. Plis gofynwch am help os fydd angen pan fyddwch yn ei symyd.